

## RHAGARWEINIAD

Er bod defaid yng Nghymru yn cael eu cadw'n bennaf ar gyfer cynhyrchu cig, mae galw cynyddol am lefrith defaid ar gyfer ei brosesu a'i yfed. Ar gyfandir Ewrop, mae traddodiad cryf o gynhyrchu defaid godro a gwneir llawer o gawsiau adnabyddus o lefrith defaid, er enghraifft feta, pecorino a Roquefort. O ystyried y traddodiad mawr fagu defaid yng Nghymru, mae'n rhyfeddol o bosibl na fu llawer o ddatblygiad mewn defaid llaeth yma. Er y bydd profiad o fagu defaid ar gyfer cynhyrchu cig yn rhoi cefndir defnyddiol, mae'n bwysig sylweddoli bod llaethyddia'n fenter hollol wahanol sy'n gofyn am lawer iawn mwy o gyfraniad (o ran amser ac offer) na chynhyrchu cig.



Dafad Lleyrn ac efeilliaid



Defaid Dorset Corniog



Dafad Friesland a thripledi

## BRIDIAU

Gall unrhyw ddafad laethog fod yn ddafad odro, ond defnyddir rhai bridiau'n fwy cyffredin na'i gilydd. Yn y DU, y Friesland, y Defaid Llaeth Prydeinig a'r Dorsets (moel neu gornog) yw'r tri brid y deuir ar eu traws gan amlaf mewn preiddiau defaid godro. O ddi-ddordeb penodol yng Nghymru o bosibl y mae'r Lleyrn, sy'n enwog am ei allu i gario a magu wŷn lluosog.

Mae ffigurau cynnyrch ar gyfer y gwahanol fridiau'n amrywio'n fawr; gwerth cyfartalog bras fesul cyfnod llaetha yw 350kg, gyda chynnyrch o hyd at 1,000kg wedi cael eu cofnodi ar gyfer rhai defaid Friesland. Anfantais y Friesland, o safbwynt y diwydiant cig, yw nad yw eu hŵyn o safon uchel. Er bod y Defaid Llaeth Prydeinig yn cynhyrchu llai o laeth fesul cyfnod llaetha, maent yn cynhyrchu wŷn sy'n fwy derbynol i'r farchnad gig. Mae'n hanfodol prynu stoc gan fridiwr dibynadwy a all brofi honiadau am gynnyrch.

## LLAETH DEFAID

Mae gan lefrith defaid gynnwys soledau uwch na llaeth buwch neu afr. Golyga hyn ei fod yn arbennig o addas ar gyfer ei brosesu i gaws. Fel rheol, cynhyrchir tuag 1:10 o gaws o laeth gafr neu fuwch, tra bo llaeth dafad yn llawer agosach at 1:5 (gan olygu eich bod yn cael dwywaith gymaint o gaws fesul litr o laeth hylif). Mae'r globylau braster mewn llaeth dafad hefyd yn llai na'r rhai mewn llaeth buwch, gan ei wneud yn haws ei dreulio. Y mae hefyd yn golygu bod llaeth dafad braster llawn yn addas ar gyfer ei rewi.

Wrth gymharu â llaeth buwch, mae gan laeth dafad lefelau uwch o Fitaminau A ac E, a'r mwynau calsiwm, ffosfforws, potasiwm, magnesiwm a sinc. Mae Tabl 1 yn crynhoi a chymharu rhai o nodweddion llaeth defaid, gwartheg a geifr. Fodd bynnag, dylid nodi bod llaeth yn gynnyrch naturiol, a bydd ei gyfansoddiad yn amrywio o un anifail i'r llall, gyda'r tymhorau a chyda gwahanol ddulliau bwydo.

Ymddengys fod y farchnad ar gyfer llaeth defaid a chynnyrch laeth defaid yn tyfu. Mae gan gynhyrchwyr ddewis o naill ai gwerthu eu llaeth i'r prosesydd (mae'r cyfleoedd ar gyfer hyn yn dibynnu'n fawr iawn ar y lleoliad) neu sefydlu eu cyfleusterau prosesu eu hunain i ychwanegu gwerth at y cynnyrch, drwy gynhyrchu cynnyrch fel caws.

**Tabl 1. Data llaetha dethol ar gyfer gwartheg, geifr a defaid**

	Buwch	Gafr	Dafad
Hyd cyfartalog llaetha (diwrnodau)	305	280	245
Cynnyrch / llaetha cyfartalog (kg)	8,500	1,100	350
Cyfanswm cyfartalog solidau (g / kg)	12.1	11.2	18.3
Cyfanswm cyfartalog braster (g / kg)	3.5	3.9	6.7
Cynnwys cyfartalog protein (g / kg)	3.4	2.9	5.6

Ffynhonnell: *British Dairy Sheep Association* a PCB

## STRATEGAETHAU BRIDIO

Bydd cynhyrchu wŷn sy'n dderbynol i'r fasnach gig yn ystyriaeth bwysig ar gyfer unrhyw ffermwr defaid godro. Fel gyda gwartheg godro, mae'n gyffredin croesi cyfran o'r praidd gyda hwrdd brid cig (e.e. Sussex) i wella nodweddion carcass. Os bydd defaid i gymryd lle'r hen rai'n cael eu magu gartref, mae'n bwysig cadw cofnodion er mwyn sicrhau fod y defaid gyda'r nodweddion gorau'n cael eu dewis ar gyfer bridio stoc newydd ohonynt. Mae semen ar gyfer ffrwythloni artiffisial ar gael o feheryn o hiliogaeth dda.

## RHEOLI WŶYN

Ar ôl cael oen gan ddafad, mae amrywiaeth o ddewisiadau rheoli ar gael i'r cynhyrchwr.

- Gellir cadw wŷn ar y ddafad am y 24 awr i 96 awr gyntaf (i sicrhau eu bod yn derbyn digon o golostrwm) ac yna'u bwydo'n artiffisial, gyda holl laeth y ddafad yn cael ei gasglu ar gyfer ei werthu / prosesu;
- Gellir gadael wŷn ar y ddafad am y mis cyntaf heb odro o gwbl nes i'r wŷn gael eu diddyfnu;
- Gellir rhoi mynediad wedi'i reoli i wŷn at y ddafad yn ystod y mis cyntaf (ar ôl 24 awr). Er enghraifft, gellir cadw'r wŷn gyda'r ddafad drwy'r nos, ond eu bwydo'n artiffisial yn ystod y dydd, gan ganiatáu godro'r ddafad unwaith bob diwrnod (yn y prynhawn).

Os nad yw wŷn yn cael eu tynnu oddi ar eu mam yn ystod pedwar niwrnod cyntaf eu hoes, dylid eu gadael gyda hi am o leiaf fis i osgoi achosi straen gormodol.

## CYNHYRCHION

Mae'r rhan fwyaf o laeth defaid yn cael ei brosesu i gaws, gyda symiau llai'n cael eu defnyddio mewn cynhyrchu iogwrt a hufen ia. Anaml iawn y gwelir menyngwyr llawer defaid, ac mae llawer yn ystyried fod hyn â photensial i gynnig cyfle da i arallgyfeirio. Mae marchnad fechan hefyd ar gyfer laeth hylif (neu wedi rhewi) ac ar gyfer laeth powdwr.

## PRISIAU

Oherwydd bod cynhyrchion laeth defaid yn eitemau ymylol, mae'n anodd rhoi gwerthoedd cynrychioladol ar eu cyfer. Bydd llawer yn dibynnu ar allu entrepreneuriaid y cynhyrchwyr neu'r gwerthwr. Fe wnaeth arolwg o archfarchnadoedd a siopau bwyd lleol adeg ysgrifennu hwn ddarganfod bod y cynhyrchion canlynol ar gael yn eang:

logwrt naturiol, 250g	£0.90 - £1.15
logwrt naturiol, organig, 450g	£1.95 - £2.07
Caws, 1kg	£12.25
Llaeth, 568ml (yn cael ei werthu wedi'i rewi)	£1.45 - £1.75

## BWYD a DŴR

Mae gofynion maethol unrhyw anifail sy'n llaetha yn sylweddol. Dylid bob amser ceisio cyngor milfeddygol i sicrhau fod y dogn a roddir yn ddigonol ar gyfer anghenion yr anifail. Mae cymryd digon o ddŵr yn hanfodol bwysig ar gyfer pob anifail sy'n llaetha os am gael y cynnyrch laeth mwyaf posibl.

## TAI ac ADEILADAU

Nid yw'r bridiau defaid a ddefnyddir ar gyfer llaethyddiaeth mor wydn â rhai o'r bridiau cig mwy traddodiadol. I sicrhau y ceir parhad di-dor i'r cyflenwad laeth, mae'n bwysig sicrhau nad yw'r anifeiliaid yn cael eu rhoi dan unrhyw straen amgylcheddol – fel rheol, mae hyn yn golygu rhoi mynediad i adeilad neu gysgod drwy gydol y flwyddyn.

Mae angen adeiladau addas hefyd ar gyfer godro ac, os gwneir y prosesu ar y safle, bydd angen adeilad ar gyfer hynny. Os gwneir caws, bydd angen lle digonol wedi'i reoli'n amgylcheddol i alluogi i'r cawsiau aeddfedu. Dylid gofyn am gyngor gan eich Swyddog lleol lechyd yr Amgylchedd ynghylch adeiladau cynhyrchu bwyd.

## IECHYD

Mae cynnal iechyd anifeiliaid yn hollbwysig o safbwynt lles a chynhyrchu. Mae materion o bwys penodol mewn praid defaid godro yn cynnwys: clwy'r traed, llyngyr a mastitis. Dylid llunio cynllun iechyd praid ar y cyd gyda'ch milfeddyg. Bydd angen rhoi sylw penodol i ofynion deddfwriaethol ar gyfer cyfnodau diddyfnu ar ôl trin gyda chyffuriau.

## DEDDFWRIAETH

Rhaid i ddarpar-gynhyrchwyr roi ystyriaeth ofalus i'r gofynion deddfwriaethol, ar gyfer cadw cofnodion amaethyddol ac ar gyfer cynhyrchu bwyd. Argymhellir y dylid gofyn am gyngor gan eich Swyddog lleol lechyd yr Amgylchedd am y gofynion deddfwriaethol ar gyfer cynhyrchu bwyd. O bwys penodol y mae Rheoliadau (Hylendid) Cynhyrchion Llaeth 1995. Mae'n anghyfreithlon gwerthu laeth i bobl ei yfed os nad oes gennych drwydded i wneud hynny. Rhaid i'r holl dir lle cedwir defaid (hyd yn oed os ydyw'n ddim ond ychydig o anifeiliaid) fod wedi'i gofrestru. Rhaid nodi clustiau'r holl ddefaid (neu eu tatŵio) i ddangos nod y praid a rhif unigryw'r anifail. Nid oes unrhyw gwotâu i reoli cynhyrchu laeth defaid.

## FFYNONELLAU RHAGOR O WYBODAETH

British Dairy Sheep Association – [www.sheepdairying.com](http://www.sheepdairying.com)

National Sheep Association – [www.nationalsheep.org.uk](http://www.nationalsheep.org.uk)

Fullwood (offer godro) – [www.fullwood.com](http://www.fullwood.com)